# Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Llogi Cyfleusterau

# National Museum Cardiff

Venue Hire



# Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn falch o fod yn un o Amgueddfeydd gorau Ewrop. Wedi'i lleoli yng nghanol un o ganolfannau dinesig mwyaf trawiadol y byd, rydym yn siŵr y bydd ein casgliadau celf, hanes natur, daeareg ac archaeoleg gwefreiddiol yn creu argraff arnoch chi a'ch gwahoddedigion.

Mae'r Amgueddfa'n cynnig lleoliad unigryw heb ei ail ar gyfer digwyddiadau corfforaethol a phreifat mawr a bach o dderbyniadau diodydd, ciniawau gala a gwleddoedd priodas i gynadleddau, seminarau a chyfarfodydd.

Gyda'r Neuadd Fawr, yr Orielau, Theatr Reardon Smith, Ystafell y Llys, Ystafelloedd Oriel a Chanolfan Ddarganfod Clore ar gael i'w llogi yn ystod y dydd a min nos, byddwch yn siŵr o ganfod y lleoliad perffaith i'ch digwyddiad.

Bydd yr holl elw o drefniadau Llogi Cyfleusterau yn helpu i gynnal a chadw a gweinyddu'r Amgueddfa.

# National Museum Cardiff

National Museum Cardiff is proud to be one of Europe's finest Museums. Situated in the heart of one of the world's most impressive civic centres, we guarantee that you and your guests will be impressed by the Museum's truly outstanding range of art, natural history, geology and archaeology collections.

The Museum offers a unique and unparalleled venue for both large-scale and more intimate corporate and private events from drinks receptions, gala dinners and wedding receptions to conferences, seminars and meetings.

With the Grand Hall, Galleries, Reardon Smith Theatre, Court Room, Oriel Suite and Clore Discovery Centre available for daytime or evening hire, you're sure to find the perfect setting for your event.

All profits from Venue Hire help towards maintaining and running the Museum.









## Y Neuadd Fawr

Mae'r neuadd farmor glasurol a chain hon yn lleoliad gwych ar gyfer ciniawau cynadleddau, gwleddoedd, seremoniau gwobrwyo, digwyddiadau lansio a gwleddoedd priodas. Gellir llogi'r Neuadd ar ei phen ei hun neu gyda'r Orielau i roi cyfle i wahoddedigion gael golwg preifat ar gasgliadau'r Amgueddfa.

## Orielau

Rydym yn cynnig detholiad o orielau trawiadol ar gyfer derbyniadau diodydd sy'n cynnwys paentiadau gan Argraffiadwyr Ffrengig, cerflunwaith a gwaith cerameg, tirluniau o Gymru a chelf hanesyddol. Gallwch logi ein horielau archaeoleg trawiadol hefyd.

## Ystafell y Llys

Wedi'i lleoli ar falconi cromen fawreddog yr Amgueddfa yn edrych dros y Neuadd Fawr, mae'r ystafell urddasol hon gyda'i phaneli derw yn ddelfrydol ar gyfer ciniawau bach canol dydd preifat, ciniawau, cyfarfodydd ffurfiol a digwyddiadau lansio.

## Grand Hall

This classical and elegant marbled hall provides a superb location for conference dinners, banquets, awards ceremonies, launch events and wedding receptions. The Hall can be hired independently or combined with the Galleries to offer guests an exclusive private view of Museum collections.

## Galleries

We offer a selection of stunning galleries for drinks receptions – from French Impressionist paintings, sculpture and ceramics to galleries of Welsh landscapes and historic art. Our spectacular archaeology galleries are also available for hire.

## Court Room

Situated in the majestic dome overlooking the Grand Hall, this stately oak-panelled room is ideal for intimate private lunches, dinners, formal meetings and launch events.









## Theatr Reardon Smith

Adeiladwyd y Theatr ym 1932 ac mae'n lleoliad perffaith ar gyfer cynhadledd, cyfarfod cyhoeddus, darlith neu gyngerdd. Gallwch logi'r Bwyty ac Ystafelloedd Oriel gyda'r theatr ar gyfer cinio canol dydd, arddangosfeydd masnach a lle i gymdeithasu neu gyda'r Neuadd Fawr ar gyfer diodydd yn yr egwyl.

## Ystafelloedd Oriel

Mae'r gyfres hon o dair ystafell gyfarfod bwrpasol yn darparu lle cyfarfod hyblyg, cymesur wedi'i aerdymheru ar gyfer 10-100 o bobl, ac mae'n ddelfrydol ar gyfer seminarau, gweithdai hyfforddiant neu ddiwrnodau cwrdd i ffwrdd.

## Bwyty'r Oriel

Gallwch logi ein Bwyty modern sydd newydd ei adnewyddu at ddefnydd mynychwyr eich cynhadledd yn unig fel lle i gael cinio canol dydd neu gymdeithasu.

## Canolfan Ddarganfod Clore

Mae'r oriel ryngweithiol ddynamig newydd hon sy'n edrych dros y parc yn lleoliad delfrydol ar gyfer cyflwyniadau gyda digon o le i weithgareddau.

## Reardon Smith Theatre

Built in 1932, the Theatre offers a perfect setting for a conference, public meeting, lecture or concert and can be combined with hire of the Oriel Restaurant and Suite for lunch, trade displays and breakout space or with the Grand Hall for interval drinks.

## Oriel Suite

This stylish suite of three purpose-built meeting rooms give well proportioned and flexible air-conditioned space for 10-100 delegates – great for seminars, workshops, training or away-days.

## Oriel Restaurant

Our bright, modern and newly refurbished restaurant can be made available exclusively for conference delegates for lunch or breakout space.

## Clore Discovery Centre

This new, dynamic hands-on gallery overlooking the park offers an ideal space for presentations with ample room for activities.










# Y tîm…

Mae ein tîm rheoli digwyddiadau pwrpasol, ein tîm technegol a'n harlwywr arbennig yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i sicrhau bod eich digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Gallwch lawrlwytho pecynnau bwydlenni blasus o'n gwefan.

# Barn ein cleientiaid…

*Diolch i chi i gyd am y cymorth a'r gefnogaeth cyn ac yn ystod ein digwyddiad. Roedd y lleoliad a gwasanaeth y staff yn ganmoladwy iawn ac rwy'n falch ein bod ni wedi gallu cynnal ein digwyddiad mewn lleoliad mor fawreddog.*
Tenovus

*Dwi am ddiolch i chi am ddigwyddiad llwyddiannus tu hwnt. Roedd y trefniadau arlwyo'n rhagorol ac roedd nifer yn canmol y cinio. Roedd trefniadau'r Amgueddfa yn wych.*

Cymdeithas Ombwdsmyn Prydain ac Iwerddon

*Roedd y noson yn llwyddiant ysgubol ac fe wnaeth ein gwahoddedigion fwynhau'r derbyniad a'r cinio'n fawr. Roedd y Neuadd Fawr yn edrych yn wych, y bwyd yn flasus iawn, a'r Amgueddfa wedi gofalu am ein holl ofynion yn gampus.*

Y Cyngor Addysgu Rhyngwladol

### Cysylltwch â ni…

Am ragor o wybodaeth neu i drefnu apwyntiad i weld ein cyfleusterau gydag aelod o'r tîm Llogi Cyfleusterau cysylltwch trwy'r dulliau canlynol:

**Ffôn:** (029) 2057 3387/3129
**Ffacs:** (029) 2057 3326
**Ebost:** llogi@amgueddfacymru.ac.uk

www.amgueddfacymru.ac.uk

Dewch o hyd i ni ar Facebook
Dilynwch ni ar Twitter

# The team…

Our dedicated event management, technical team and first class caterer provide the highest level of quality and service to ensure your event is a resounding success. Delicious menu packs are available to download from our website.

# What our clients say…

*Thank you for all of your help and support in the lead up and during our event. The venue and service from staff was exemplary and I'm delighted we were able to hold our event in such a prestigious venue.*
Tenovus

*I just wanted to thank you for a very successful event. The catering arrangements were excellent and there were many compliments about the dinner. The arrangements at the Museum were first class.*

British and Irish Ombudsman Association

*The evening was a great success, and our delegates enjoyed both the reception and the dinner immensely. The Grand Hall looked fantastic, the food was delicious, and all our requirements were catered for with great flair.*

International Teaching Council

### Contact us…

For further information or to make an appointment to view our facilities with a member of the Venue Hire team please contact:

**Tel:** (029) 2057 3387/3129
**Fax:** (029) 2057 3326
**Email:** venue.hire@museumwales.ac.uk

www.museumwales.ac.uk

Find us on Facebook
Follow us on Twitter

# Ffilmio a Ffotograffiaeth

Mae Amgueddfa Cymru yn croesawu ceisiadau i ffilmio yn cynnwys ffilmiau nodwedd, dramâu teledu, rhaglenni dogfen, rhaglenni ffeithiol, cyfweliadau a sesiynau ffotograffiaeth.

Mae ein saith amgueddfa'n cynnig amrywiaeth o leoliadau unigryw – o adeiladau hanesyddol i eco-dŷ o'r unfed ganrif ar hugain, deinosoriaid i orielau celf, gerddi ffurfiol i bwll glo.

Mae dramâu teledu a ffilmiwyd yn ein hamgueddfeydd yn cynnwys *Dr Who*, *Torchwood*, *Sherlock*, *Pobol y Cwm* a *Gwaith Cartref*. Rydym hefyd wedi ymddangos ar *Snowdonia 1850*, *The Coal House* ac *Ancient Britain* ac wedi bod yn lleoliad i'r gyfres boblogaidd *Antiques Roadshow* yn ddiweddar.

Mae'r holl elw o ffilmio masnachol yn helpu i gynnal a chadw a gweinyddu'r Amgueddfeydd.

**Cysylltwch â ni…**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'r tîm Ffilmio Masnachol:

**Ebost:** filming@museumwales.ac.uk
**Ffôn:** 029 2057 3327 / 3129
**Ffacs:** 029 2057 3326

www.amgueddfacymru.ac.uk

Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi!

# Filming and Photography

Amgueddfa Cymru – National Museum Wales welcomes filming requests including feature films, television dramas, documentaries, factual programmes, interviews and photographic shoots.

All seven of our museums offer a range of unique locations - from historic buildings to a 21st century eco-house, dinosaurs to art galleries, formal gardens to a coal mine.

TV dramas filmed at our museums include *Dr Who*, *Torchwood*, *Sherlock*, *Pobl y Cwm* and *Gwaith Cartref*. We have also appeared in *Snowdonia 1850*, *The Coal House* and *Ancient Britain* and have recently hosted the much loved *Antiques Roadshow*.

All profit made from commercial filming helps maintain and run our Museums.

**Contact us…**

For further information please contact a member of the Commercial Filming team.

**Email:** filming@museumwales.ac.uk
**Tel:** 029 2057 3327 / 3129
**Fax:** 029 2057 3326

www.museumwales.ac.uk

We look forward to hearing from you!

# Hanes ar Log…

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**

**Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yng Nghaerdydd**

**Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru ym Mlaenafon**

**Amgueddfa Wlân Cymru yn Dre-fach Felindre, ger Castellnewydd Emlyn**

**Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis**

**Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion, ger Casnewydd**

**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe**

# History for Hire…

**National Museum Cardiff**

**St Fagans: National History Museum in Cardiff**

**Big Pit: National Coal Museum in Blaenafon**

**National Wool Museum in Dre-fach Felindre, near Newcastle Emlyn**

**National Slate Museum in Llanberis**

**National Roman Legion Museum in Caerleon, near Newport**

**National Waterfront Museum in Swansea**

**www.museumwales.ac.uk** **www.amgueddfacymru.ac.uk**